| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **24 Ionawr 2017** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Eryl Williams,<br>Aelod Arweiniol dros Addysg** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant** |
| **Teitl:** | **Ysgol Gatholig 3-16 Arfaethedig yn Y Rhyl** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio cymeradwyaeth i ddechrau ymgynghori ar gynigion trefniadaeth ysgol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r Cyngor yn symud ymlaen â rhaglen uchelgeisiol ar gyfer buddsoddi yn yr ystâd ysgolion. Mae'r adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth i Aelodau ac yn ceisio cymeradwyaeth i symud ymlaen i'r cam nesaf.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Gofynnir i'r Cabinet:

**(i) Gymeradwyo symud ymlaen i ymgynghori'n ffurfiol ar gynnig i gau Ysgol Gynradd Gatholig Mair ac Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ar 31 Awst 2019 ac agor Ysgol Gatholig 3-16 ar yr un safle ar 1 Medi 2019 ac,**
**(ii) Argymell cymeradwyo cyllid er mwyn dechrau ar y cam cysyniad/ dylunio manwl.**

## 4. Manylion yr Adroddiad:

4.1 Fel rhan o'r cynigion Rhaglen Band A Ysgolion yr 21ain Ganrif y Cyngor y cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn 2010, roedd ymrwymiad a dyraniad ariannol ar gyfer buddsoddi mewn Darpariaeth Uwchradd Cyd Ffydd.

4.2 Cynhaliwyd trafodaethau helaeth dros y chwe blynedd diwethaf rhwng partneriaid o'r Esgobaeth Gatholig yn Wrecsam ac Yr Eglwys yng Nghymru, Esgobaeth Llanelwy. Mae'r trafodaethau yn ystod y deuddeg mis diwethaf wedi canolbwyntio ar y lleoliad a sut y gall hyn effeithio ar gyfeiriad yr ysgol i'r dyfodol. Mae gallu cyflawni'r prosiect o fewn y terfynau amser ar gyfer Band A wedi bod yn ffactor pwysig iawn yn y trafodaethau hyn. Dros yr haf roedd pob parti yn deall, er mwyn i'r prosiect gael ei gyflawni, roedd angen consensws.

4.3 O ganlyniad, y cynnig prosiect sydd wedi datblygu yw Ysgol Gatholig 3-16 newydd yn lle’r Ddarpariaeth Gatholig bresennol gan Ysgol Mair (3-11 Cynradd) ac Ysgol Uwchradd y Bendigaid Edward Jones (11-16 Uwchradd).

4.4 Cadarnhaodd yr Esgobaeth Gatholig yn Wrecsam ei chefnogaeth o’r prosiect hwn ar 26 Hydref 2016.

4.5 Mae’r Cyngor mewn partneriaeth ag Esgobaeth Gatholig Wrecsam am ddechrau ymgynghori ar gynnig i gau Ysgol Gynradd Gatholig Mair ac Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones ar 31 Awst 2019 ac agor Ysgol Gatholig 3-16 ar yr un safle ar 1 Medi 2019. Mae’r ddogfen Ymgynghoriad ddrafft wedi’i pharatoi (gweler Atodiad 1) ac os yw'r Cabinet yn gytûn, cynigir ymgynghori ar y cynnig hwn rhwng 7 Chwefror a 20 Mawrth. Rhagwelir y bydd canfyddiadau'r ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ym mis Mai/ Mehefin 2017. Yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion, rydym ni wedi ymgynghori â’r Esgobaeth Gatholig yn Wrecsam ac maent ar y cyfan yn cefnogi’r cynnig drafft.

4.6 Mae’r Cynllun Corfforaethol cyfredol yn cynnwys £23.8m wedi’i neilltuo ar gyfer y prosiect hwn. Ariennir y rhaglen gyffredinol o £86.1m yn gyfartal rhwng Llywodraeth Cymru a Sir Ddinbych. Fodd bynnag, mae hyblygrwydd o fewn prosiectau unigol i ailddyrannu’r rhaniad dim ond iddynt sicrhau bod y rhaglen gyffredinol yn aros yn 50/50. Bydd hefyd yn ofynnol gwario’r arian gan Lywodraeth Cymru erbyn mis Mawrth 2019. Golyga hyn y bydd rhaid i broffil cyllid y prosiect sicrhau bod dyraniad Llywodraeth Cymru yn cael ei wario erbyn y dyddiad hwn ac yna defnyddio cyfran Sir Ddinbych ar gyfer y misoedd sydd yn weddill. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o’r sefyllfa ac mae hyn wedi cael ei drafod yn y cyfarfodydd cynnydd rheolaidd rhwng y partïon.

4.7 Cyngor Sir Ddinbych fydd derbynnydd y grant ar gyfer y prosiect a bydd yn cyflwyno’r ceisiadau ar gyfer cymeradwyaeth Achos Busnes i Lywodraeth Cymru. Yn dilyn hyn, fe fydd Sir Ddinbych yn arwain y prosiect a’r Sir fydd y corff comisiynu ar gyfer elfennau dylunio ac adeiladu’r prosiect. Darperir yr elfennau hyn mewn partneriaeth â’r Esgobaeth Gatholig yn Wrecsam a'u tîm prosiect, a fydd yn cael ei sefydlu gan yr Esgob.

4.8 Mae’r Grŵp Buddsoddi Strategol wedi argymell cymeradwyo’r achos busnes cychwynnol ar gyfer y prosiect a fydd yn destun Achosion Busnes manwl pellach i’w cyflwyno i Lywodraeth Cymru ac y dyraniad cychwynnol ar gyfer Sir Ddinbych i gyllido’r camau dylunio ar gyfer y prosiect hyd at y cam adeiladu. Amcangyfrifir y bydd hyn oddeutu £1.5m.

4.9 Bydd y broses gaffael ar gyfer partner adeiladu dewisol yn cael ei chynnal drwy Lot 3 o Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru. Bydd cyflawni’r prosiect hwn yn cyflwyno sawl her drwy ddatblygu adeilad newydd ar safle ysgol weithredol ac fe fydd rhaglennu’r gwaith yn hanfodol er mwyn cyflawni'r cynllun o fewn amserlen o ganlyniad i'r terfynau amser cyllido.

4.10 Y cam cyntaf fydd datblygu'r dyluniad cysyniad ar gyfer yr ysgol er mwyn gallu datblygu dyluniad manwl. Yn seiliedig ar y dyluniad manwl hwn cyflwynir cost

gytunedig gan y Contractwr ac yna bydd yn ofynnol i'r Cabinet benderfynu a ddylai'r prosiect symud ymlaen i'r cam adeiladu. Os caiff hyn ei gymeradwyo yna byddai'r Contractwr yn cael ei benodi ar gyfer yr ail gam, sef dymchwel ac adeiladu. Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cabinet i ddatblygu'r prosiect hwn, rhagwelir y bydd cystadleuaeth fach, er mwyn penodi Partner Adeiladu, ym mis Chwefror 2017 ac fe benodir partner erbyn mis Mawrth 2017.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Bydd y cynnig yn cefnogi'r flaenoriaeth gorfforaethol o "wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion".

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Bydd y gost o ymgynghori ar y cynigion yn weddol fach gan gynnwys yn bennaf, costau argraffu a phostio ynghyd ag amser swyddogion. Os byddwn yn bwrw ymlaen â'r cynigion a'u gweithredu, rhagwelir y bydd angen cefnogaeth AD i staff a effeithir yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol gan y newidiadau bwriedig.

6.2 Y gyllideb gyffredinol sydd wedi'i hamlinellu ar hyn o bryd yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor yw £23.8 miliwn. Ariennir y gyllideb mewn partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ddinbych a Llywodraeth Cymru fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan, a dylai gael ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn.**

7.1 Gweler yr atodiad Asesiad o Effaith ar Les – Ysgol Gatholig 3-16 newydd yn Y Rhyl.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae'r Esgobaeth Gatholig yn Wrecsam, Cadeiryddion Llywodraethwyr a Phenaethiaid Ysgol Mair ac Ysgol y Bendigaid Edward Jones yn ymwybodol o'r cynigion sy'n cael eu cyflwyno i'r Cabinet a bydd cyfle iddynt ymateb yn ffurfiol fel rhan o'r broses ymgynghori ffurfiol hefyd. Cefnogwyd y prosiect gan Grŵp Aelodau Ardal y Rhyl ar 11$^{eg}$ o Ionawr.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Gellir cynnwys y gost o ymgynghori ar y cynigion o fewn yr adnoddau sy'n bodoli eisoes. Yn unol â holl Gynlluniau Ysgolion yr 21ain ganrif mae'n rhaid i'r cyngor ddarparu'r costau cychwynnol er mwyn datblygu achos busnes llawn cyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i roi cyfran (50%) o'r gost. Er bod hyn yn golygu risg fach, ni fydd y prosiect yn gallu symud yn ei flaen heb fuddsoddiad y cyngor. Felly, cefnogir y ddau argymhelliad.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Er mwyn sicrhau y cyflawnir y garreg filltir allweddol, sef agor yr ysgol erbyn mis Medi 2019, bydd rhaid rheoli'r risgiau sydd ynghlwm â'r broses.

10.2 Yn dilyn yr un dull â ddefnyddir ar brosiectau eraill bydd datblygiad y cam dylunio yn ddibynnol ar gymeradwyaeth y pecyn cyllido cyffredinol gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, oherwydd bod rhaid symud ymlaen i'r cam dylunio er mwyn cyrraedd y cam hwn, ystyrir hon yn risg dderbyniol. Y gwahaniaeth â'r dull hwn yw y bydd rhaid i'r cynigion trefniadaeth ysgol gydredeg â'r camau dylunio.

10.3 Y risg liniarol ar hyn o bryd yw bod penodiad y prif gontractwr yn debygol o ddigwydd wedi i'r broses ymgynghori ffurfiol ddod i ben. Felly os bydd gwrthwynebiad sylweddol i'r cynnig yn gynnar yn y broses gall y Cyngor geisio gohirio penodi prif gontractwr fel y bo'n briodol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae'r cynigion yn cyd-fynd â Fframwaith Polisi Moderneiddio Addysg.

Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn darparu'r gofyniad deddfwriaethol i awdurdodau lleol adolygu cynigion ysgolion ac i symud cynigion ymlaen i ad-drefnu darpariaeth ysgolion.